

Crynodeb Gwirio Ansawdd Ward Enlli, Ysbyty Bronglais Dyddiad y gweithgarwch: 2 Mawrth 2021

Dyddiad cyhoeddi: 6 Ebrill 2021



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Cofnod o'r Canfyddiadau

Ein Dull Gweithredu

Cynhaliwyd gwiriad ansawdd o bell gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) o Ward Enlli, Ysbyty Bronglais fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Uned iechyd meddwl ar gyfer oedolion hŷn yw Ward Enlli sydd â chapasiti ar gyfer 11 o gleifion.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull haenog newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn lleoliadau gofal iechyd. Canolbwyntiodd y gwiriad ansawdd hwn ar bedwar maes allweddol: trefniadau COVID-19; yr amgylchedd; atal a rheoli heintiau; a llywodraethu. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â Rheolwr y Gwasanaeth ar 2 Mawrth 2021 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am ei leoliad. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut rydych yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn addas ar gyfer anghenion y cleifion ar yr adeg hon? Pa newidiadau, os o gwbl, a wnaed i'r amgylchedd ffisegol, trefniadau ar y ward a gallu'r cleifion i fanteisio ar gyfnodau o absenoldeb o ganlyniad i COVID-19?
- Sut mae'r risg o haint yn cael ei hasesu a'i rheoli i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel?
- O ystyried effaith COVID-19, sut rydych yn cyflawni eich dyletswydd gofal mewn perthynas â'r Ddeddf Iechyd Meddwl a sut mae hawliau'r cleifion yn cael eu diogelu?
- Sut rydych yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol i ddiwallu anghenion y cleifion, gyda mynediad i weithwyr iechyd meddwl proffesiynol ehangach pan fydd angen?

Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr. Edrychwyd ar asesiadau risg diweddar, adolygiadau o ddigwyddiadau a'r defnydd o ddulliau atal yn gorfforol ac arwahanu. Hefyd, holwyd y lleoliad am y newidiadau y mae wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn y gofal a'r driniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwelsom dystiolaeth o asesiadau risg amrywiol a oedd wedi cael eu cynnal, gan gynnwys asesiadau risg ar gyfer pwyntiau clymu ac asesiadau risg tân. Dywedwyd wrthym am y gwiriadau amgylcheddol sy'n cael eu cwblhau a gwelsom dystiolaeth o'r gwiriadau ward wythnosol a gynhaliwyd gan y rheolwr, a gwblhawyd ym mis Hydref 2020.

Dywedwyd wrthym fod newidiadau wedi cael eu gwneud i'r amgylchedd o ganlyniad i COVID-19. Sicrhawyd bod Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) a hylif diheintio dwylo ar gael. Cafodd amserlenni glanhau eu diwygio fel bod holl ardaloedd y cleifion a'r staff yn cael eu glanhau'n amlach.

Cafodd y ward ei rhannu'n ddwy ardal, roedd yr ardal oren yn cael ei defnyddio at ddibenion ynysu cleifion a oedd yn aros am ganlyniadau sgrinio COVID-19 neu'r rheini a oedd yn dangos symptomau COVID-19. Roedd ystafell fyw yn yr ardal oren lle y gallai un claf ar y tro fwyta prydau bwyd a gwyllo teledu. Dywedwyd wrthym fod yr ardal hon yn cael ei glanhau'n drylwyr ar ôl i bob claf ei defnyddio. Roedd yr ardal werdd ar gyfer cleifion a oedd wedi cael canlyniad negatif i brawf COVID-19.

Rhoddwyd mesurau cadw pellter cymdeithasol ar waith, oedd yn cynnwys aildrefnu'r ardaloedd bwyta fel bod mwy o le rhwng y byrddau a'r cleifion. Er mwyn sicrhau y gallai'r staff gadw pellter cymdeithasol, roedd un ystafell wedi cael ei throï'n ail swyddfa. Roedd dodrefn a seddi wedi cael eu tynnu o ardaloedd amrywiol ar y ward er mwyn galluogi pobl i gadw pellter cymdeithasol a galluogi trefniadau glanhau digonol. Rhoddwyd system un ffordd ar waith ym mhob rhan o'r ward er mwyn lleihau'r cyswllt rhwng y staff a'r cleifion. Dywedwyd wrthym fod gan y rhan fwyaf o ystafelloedd gwely'r cleifion eu cyfleusterau ystafell ymolchi en-suite eu hunain. Roedd ystafelloedd ymolchi a rennir wedi'u lleoli yn yr ardal werdd ac roeddent yn cael eu glanhau'n drylwyr ar ôl eu defnyddio.

Disgrifiodd y rheolwr y trefniadau ymweld a oedd yn dilyn polisi'r bwrdd iechyd a chanllawiau'r llywodraeth, hynny yw, ni chaniateir unrhyw ymwelwyr oni bai eu bod yn hanfodol ar gyfer darparu gofal diwedd oes. Esboniodd y byddai'r staff yn cysylltu â theulu'r cleifion o leiaf unwaith yr wythnos er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am gyflwr y cleifion. Dywedwyd wrthym am y newidiadau a wnaed i geisiadau'r cleifion am ganiatâd i fod yn absennol. Roedd absenoldeb yn bosibl mewn achosion penodol yn dilyn asesiad risg

trylwyr, hebryngwr a defnydd llawn o PPE. Cawsom gopi o'r polisi a oedd yn cefnogi hyn.

O ganlyniad i'r cyfyngiadau sydd ar waith, defnyddiwyd dulliau cyfathrebu amgen er mwyn sicrhau bod y cleifion yn cadw mewn cysylltiad â'u teulu a'u ffrindiau. Roedd y cleifion yn gallu defnyddio iPads a system ¹RITA a oedd yn galluogi iddynt gael galwadau fideo â'u perthnasau.

Dywedwyd wrthym fod adolygiadau'n cael eu cynnal gan y Tîm Amlddisgyblaethol unwaith yr wythnos. Roedd cleifion hefyd yn cael eu gweld a'u hadolygu bob dydd, ac roedd lefelau arsylwi yn cael eu hasesu. Esboniodd y staff eu bod wedi gorfod addasu i weithio â gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau allanol o bell drwy alwadau fideo. Roedd cynnydd wedi bod yn nifer y cyfarfodydd rhithwir ar gyfer rowndiau ward, cyfarfodydd y Tîm Amlddisgyblaethol, cyswllt teuluol, cyfarfodydd budd pennaf a chyfarfodydd cynllunio i ryddhau cleifion.

Dywed fod yr uwch-reolwyr yn trefnu ac yn hwyluso cyfarfodydd dyddiol y staff er mwyn cynnig trefniadau goruchwyllo gan gymheiriaid, cymorth a rhannu gwybodaeth â rheolwyr y ward. Roedd hyn hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y canllawiau ar COVID-19 sy'n newid o hyd i'r rheolwyr a'r staff. Dywedwyd wrthym fod cyfleoedd dysgu hefyd yn cael eu nodi o ganlyniad i'r cyfarfodydd hyn.

Dywedodd y staff wrthym fod arferion y cleifion yn cael eu cadw mor normal â phosibl. Er mwyn helpu i fynd i'r afael â diflastod o ganlyniad i gyfyngiadau COVID-19, roedd gweithgareddau ychwanegol yn cael eu cynnig gan y Therapydd Galwedigaethol. Roedd cyfarfodydd cleifion yn parhau i gael eu cynnal ac roedd y staff yn darparu'r canllawiau diweddaraf ar COVID-19. Dywedodd rheolwr y ward ei fod yn ddiolchgar i'r staff am eu hymdrechion yn ystod y pandemig i gadw'r cleifion yn brysur.

Ni nodwyd unrhyw welliannau.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, ymwelwyr a'r staff yn ddiogel. Edrychwyd ar bolisiau rheoli heintiau, cyfraddau heintio ac asesiadau risg.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Cawsom y polisiau a'r gweithdrefnau sydd ar waith ar gyfer atal a rheoli heintiau, a oedd yn cynnwys y Canllawiau ar Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer COVID-19. Gwelsom dystiolaeth o'r archwiliadau atal a rheoli heintiau a gynhaliwyd dros y flwyddyn ddiwethaf er mwyn asesu a rheoli'r risg o haint. Cwblhawyd archwiliad atal a rheoli heintiau ym mis Gorffennaf 2020 a

¹ Ystyr RITA yw Gweithgareddau Therapi Hel Atgofion Rhyngweithiol, ac mae'n system therapi ddigidol sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n galluogi'r cleifion i ddefnyddio apiau, gemau a gweithgareddau hamdden eraill fel rhan o'u hadferiad yn yr ysbyty.

oedd yn dangos cyfradd cydymffurfio o 82 y cant. Roedd y meysydd a gwmpaswyd yn yr archwiliad hwn yn cynnwys gwiriadau o hylendid dwylo a glendid cyfarpar.

Dywedwyd wrthym fod y staff wedi sicrhau bod holl ardaloedd y cleifion a'r staff yn cael eu glanhau'n amlach ym mhob rhan o'r ward a bod gorsafoedd PPE ar gael wrth fynedfa'r ward. Roedd cyfleusterau golchi dwylo ar gael i'r cleifion a'r staff ym mhob rhan o'r ward.

Gwelsom dystiolaeth o Bolisi Sgrinio COVID-19 wrth Dderbyn Cleifion sy'n pennu'r gweithdrefnau er mwyn sicrhau bod cleifion a oedd yn cael eu derbyn neu eu trosglwyddo yn cael eu sgrinio ar gyfer COVID-19 ymlaen llaw. Dywedwyd wrthym am y systemau a'r gweithdrefnau sydd ar waith i nodi unrhyw staff neu gleifion a allai fod mewn perygl o ddatblygu COVID-19. Hefyd, dywedwyd wrthym fod asesiadau risg wedi cael eu cwblhau ar gyfer pob aelod o'r staff. Gan ddibynnu ar ganlyniad yr asesiad, byddai'r sefydliad yn penderfynu a oes angen i'r aelod hwnnw o staff hunanynysu neu osgoi ardaloedd y cleifion.

Dywedwyd wrthym am y systemau sydd ar waith i sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ar gyfer atal a rheoli heintiau ac yn eu cyflawni. Gwelwyd tystiolaeth o hyn mewn polisi Canllawiau ar Gadw Pellter Cymdeithasol a oedd yn pennu camau gweithredu a chyfrifoldebau'r rheolwyr a'r staff er mwyn atal lledaeniad y feirws. Yn ogystal â hyn, dywedwyd wrthym fod hyfforddiant ar wisgo a diosg PPE a hyfforddiant masgiau wedi cael ei ddarparu i bob aelod o'r staff.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Llywodraethu

Fel rhan o'r safon hon, ystyriodd AGIC y ffordd y mae'r lleoliad yn sicrhau bod digon o staff ar gael sydd wedi cael hyfforddiant priodol i ddiwallu anghenion y cleifion, a'u bod yn gallu cysylltu â gweithwyr iechedd meddwl proffesiynol eraill pan fydd angen.

Hefyd, holwyd y lleoliad am y ffordd y mae, yn sgil effaith COVID-19, yn parhau i gyflawni ei ddyletswydd gofal o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ac o ran diogelu hawliau'r cleifion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Darparwyd niferoedd staffio a dywedwyd wrthym y cânt eu hystyried yn ddigonol i sicrhau gofal a diogelwch cleifion ar y ward. Dywedwyd wrthym y gallai aciwtedd cleifion amrywio heb unrhyw batrwm a ragwelwyd. O ganlyniad i hyn, roedd y lefelau a'r gofynion staffio yn cael eu hadolygu bob dydd er mwyn helpu'r tîm i ddarparu gofal diogel ac effeithlon.

Dywedwyd wrthym fod staff banc yn cael eu defnyddio er mwyn cyflenwi ar gyfer salwch a chynnydd mewn galw, o ganlyniad i aciwtedd cleifion. Roedd y data a ddarparwyd yn dangos bod gan y ward swyddi gwag ar gyfer dwy nyrs iechedd meddwl gofrestredig ac un gweithiwr cymorth gofal iechedd ac nad oedd unrhyw aelod o'r staff yn absennol oherwydd salwch. Roedd

y ward wrthi'n recriwtio staff i lenwi'r swyddi gwag hyn ac yna byddai hyn yn sicrhau bod gan y ward cyflenwad llawn o staff.

Darparwyd data ar gydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol y staff, ac roedd hyn yn dangos bod gan nifer o feysydd gyfradd gydymffurfio uchel (cyfradd gydymffurfio o 82.25 y cant ar gyfartaledd). Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod hyfforddiant wedi'i leoli mewn ystafell ddosbarth wedi'i atal yn ystod y pandemig. Esboniodd y staff fod cynlluniau ar waith i aildddechrau hyfforddiant wyneb yn wyneb. Dywedwyd wrthym fod y staff yn gallu defnyddio cyfrifiaduron i gwblhau hyfforddiant ar-lein.

Roedd y data yn dangos cyfradd gydymffurfio o 100 y cant o ran arfarniadau'r staff a dywedwyd wrthym fod digon o gymorth ar waith ar gyfer y staff. Dywedodd rheolwr y ward wrthym, yn ogystal â'r broses ddyddiol o drosglwyddo rhwng sifftiau, fod cyfarfodydd staff dyddiol, fel y'u disgrifir uchod, wedi cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod gan y staff wybodaeth gyfredol. Yn ogystal â'r cynllun cymorth i gyflogeion, roedd y gwasanaeth cymorth lles seicolegol² ar gael i unrhyw aelod o'r staff a allai fod yn dioddef o orbryder neu gyflwr tebyg o ganlyniad i COVID-19. Mae rheolwr y ward yn cynnal sesiynau goruchwyllo rheolaidd gyda phob aelod o'r staff, gyda pholisi drws agored ar waith.

Roedd rheolwr y ward hefyd yn llawn canmoliaeth i'r staff a'r gwaith roeddent wedi'i gyflawni yn ystod y pandemig.

Cawsom gopi o'r weithdrefn gwyno, Gweithio i Wella. Dywedodd rheolwr y ward wrthym y byddai unrhyw achos o risg uniongyrchol yn cael ei uwchgyfeirio at yr unigolyn priodol yn syth. Roedd cyfarfodydd ag uwch aelodau o'r staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd i drafod materion.

Dywedwyd wrthym fod adolygiadau o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl a chadw mewn cysylltiad â gweithwyr proffesiynol allanol, wedi parhau drwy alwadau ffôn a fideogynadledda. Roedd y cynrychiolydd eirioli wedi ymweld â'r ward ac wedi parhau i weld cleifion wyneb yn wyneb.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

² <https://biphdd.gig.cymru/gofal-iechyd/gwasanaethau-a-thimau/lles-seicolegol-y-staff/>

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau yn ystod ein gwiriad, y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y cynllun gwella isod.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Nodi'n glir sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Cynllun gwella

Lleoliad: Ysbyty Bronglais, Aberystwyth

Ward: Ward Enlli

Dyddiad y gweithgarwch: 2 Mawrth 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod Gwiriad Ansawdd Haen 1, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Rhif Cyfeirnod	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
1	Ni nodwyd unrhyw welliannau				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw:

Dyddiad: